# Adroddiad cynnydd asesiad personol – Rhifedd (Rhesymu)

## Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Deall adroddiad y dysgwr

Mae eich plentyn wedi gwneud asesiad personol byr ar-lein ar gyfer Rhifedd (Rhesymu). Mae'r wybodaeth hon i'ch helpu i ddeall yr adroddiad a roddwyd iddyn nhw. Pwrpas yr asesiadau hyn yw helpu plant i wneud cynnydd. Ar ôl i'ch plentyn wneud asesiad Rhifedd (Rhesymu) bydd gan ei athro/athrawes wybodaeth sy'n cysylltu â gweithgareddau y gallai eu defnyddio gyda'ch plentyn yn y dosbarth i helpu i ddatblygu ei sgiliau rhesymu ymhellach.

## Beth sy'n cael ei asesu ar gyfer Rhifedd (Rhesymu)?

Mae asesiadau personol Rhifedd (Rhesymu) yn cynnig gwybodaeth am ba mor dda y gall eich plentyn ddefnyddio a chymhwyso'r hyn y maen nhw'n ei wybod er mwyn datrys problemau rhifiadol.

## Sut mae'r asesiad yn gweithio?

Dewisir y cwestiynau o 'gronfa' fawr a gynlluniwyd ar gyfer Blynyddoedd 2 i 9. Mae pob cwestiwn, neu set o gwestiynau, wedi'u dewis yn seiliedig ar yr ateb a roddwyd gan y dysgwr i'r cwestiwn blaenorol, neu'r set o gwestiynau blaenorol. Daw'r asesiad i ben gyda stori neu senario a chyfres o broblemau rhifiadol cysylltiedig y mae angen i'r dysgwr eu datrys.

Bydd dysgwyr yn cael rhai cwestiynau'n gywir a rhai cwestiynau'n anghywir, gan mai dyna sut y cesglir gwybodaeth am yr hyn y gall pob dysgwr ei wneud ar yr adeg benodol honno. Mae hyn yn golygu y bydd asesiad pob dysgwr yn unigryw iddyn nhw.

## Beth mae'r adroddiad yn ei ddweud?

Mae adran gyntaf yr adroddiad yn dangos cynnydd eich plentyn yn yr asesiadau personol Rhifedd (Rhesymu). Mae'r asesiadau a wnaeth eich plentyn yn cael eu dangos ar y graff. Efallai y bydd eich plentyn wedi gwneud mwy nag un asesiad yn y flwyddyn, felly bydd mwy nag un asesiad ar y graff: naill ai un neu ddau ar gyfer pob blwyddyn ysgol. Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd yn yr asesiadau, mae'r graff yn dangos lle mae'ch plentyn arni o'i gymharu â phlant eraill sydd yn ei grŵp blwyddyn ledled Cymru a wnaeth yr asesiad yr un adeg o'r flwyddyn â'ch plentyn. Byddwch yn gallu gweld cynnydd eich plentyn o un flwyddyn i'r llall.

Mae ail adran yr adroddiad yn dangos sgôr safonedig ar sail oedran ar gyfer eich plentyn ar ran ei asesiad diweddaraf. Mae hyn yn dangos sut y mae eich plentyn wedi'i wneud o'i gymharu â phlant eraill yng Nghymru sydd wedi eu geni yn yr un flwyddyn a'r un mis ac a wnaeth yr asesiad yr un adeg o'r flwyddyn â'ch plentyn.

70 i130 yw ystod y sgôr a'r cyfartaledd yw 100.

Mewn rhai achosion, os bydd gan blentyn sgôr safonedig ar sail oedran uchel iawn, caiff ei dangos fel 'mwy na 130' (130+), a chaiff sgôr plentyn sy'n datblygu sgiliau'n arafach ei dangos fel 'llai na 70' (<70). Bydd tua 2.5 y cant o ddysgwyr yn cael sgôr sy'n llai na 70, a bydd tua 2.5 y cant o ddysgwyr yn cael sgôr sy'n fwy na 130.

**Am ragor o wybodaeth am asesiadau personol ewch i**
**hwb.llyw.cymru/asesiadau-personol-ar-gyfer-rhieni-a-gofalwyr**

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48204
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg